`

Rhif ymchwil gymdeithasol: 97/2025

Dyddiad cyhoeddi: 14/10/2025

# Gwerthusiad o'r system anghenion dysgu ychwanegol: arolwg o rieni a gofalwyr

## Crynodeb Gweithredol

## Cefndir a methodoleg

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Arad Research i gynnal gwerthusiad ffurfiannol pedair blynedd o weithredu'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae dau adroddiad wedi'u cyhoeddi hyd yma fel rhan o'r gwerthusiad:

- Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad cwmpasu (2023)
- Gwerthusiad o'r system ADY: arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol (2025)

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg o rieni a gofalwyr. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Mawrth ac Ebrill 2025, gan archwilio profiadau rhieni a gofalwyr o'r system ADY.

### Methodoleg

Cafodd holiadur yr arolwg ei seilio ar y theori newid ar gyfer y system ADY a amlinellwyd yn adroddiad cwmpasu y gwerthusiad, a'i beilota gyda sampl o rieni a gofalwyr. Roedd yr arolwg yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau caeedig a thestun rhydd. Fe'i gynlluniwyd i gasglu ystod eang o brofiadau rhieni â phlant sydd angen

cymorth ychwanegol i ddysgu, dysgwyr oedd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) a'r rheiny oedd heb CDU.

Dosbarthwyd dolen i'r arolwg trwy gydlynwyr ADY (CADYau) ac ysgolion a oedd wedi cytuno i ddosbarthu'r arolwg yn flaenorol. Cafodd ei gyhoeddi hefyd yng nghylchlythyrau addysg Llywodraeth Cymru, bwletinau, sianeli cyfryngau cymdeithasol a thrwy rwydweithiau rhanddeiliaid.

## Dadansoddi'r arolwg

Mae'r canrannau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at yr holl rieni a atebodd y cwestiwn perthnasol (a all gynnwys mwy nag un ymateb ar gyfer yr ymatebwyr hynny a atebodd mewn perthynas â phlentyn ychwanegol).

Defnyddiwyd dull thematig wrth ddadansoddi ymatebion i'r cwestiynau testun agored. Mae'r adrannau o'r adroddiad hwn sy'n cyflwyno crynodebau o'r ymatebion ysgrifenedig hyn yn cyflwyno'r themâu a godwyd amlaf yn gyntaf.

## Sampl

Roedd 2062 o ymatebion i gwestiynau proffil rhagarweiniol yr arolwg (gan gynnwys ymatebion gan 101 o rieni a ddewisodd ateb am blentyn ychwanegol). Fodd bynnag, gofynnwyd prif gwestiynau'r arolwg i ymatebwyr dim ond os oedd eu plentyn:

- o oedran ysgol gorfodol (neu'n hŷn) neu'n mynychu lleoliad ysgol a gynhelir, ac
- angen cymorth ychwanegol i ddysgu (neu os oedd hi'n debygol fod angen hynny arnynt) ym marn y rhiant

Dywedodd 70% o'r ymatebion (1441 allan o 2049) fod angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn i ddysgu. Dywedodd 9% arall nad oeddent yn siŵr ond eu bod yn meddwl ei bod hi'n debygol fod angen cymorth arnynt. Gofynnwyd prif gwestiynau yr arolwg i'r rhieni hyn gan holi eu safbwyntiau ar y system ADY.

Dywedodd 19% o'r ymatebion nad oedd angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn i ddysgu a dywedodd 2% arall nad oeddent yn siŵr ond eu bod yn meddwl nad oeddent yn debygol o fod angen hynny. Ni ofynnwyd y prif gwestiynau arolwg i'r rhieni hyn. Felly, cyfanswm yr ymatebion i brif gwestiynau'r arolwg oedd 1621 (gan gynnwys 93 o ymatebion gan riant a oedd yn ateb ar gyfer plentyn ychwanegol).

Cafwyd cynrychiolaeth gan yr holl awdurdodau lleol ymhlith y sampl o 1621 o ymatebion i brif gwestiynau'r arolwg, fodd bynnag, roedd amrywiad sylweddol yn nifer yr ymatebion ar draws awdurdodau lleol. Roedd y gyfran uchaf o blant (38%) yr ymatebodd ymatebwyr amdanynt yn derbyn eu haddysg mewn ysgol gynradd. Roedd 27% arall yn derbyn eu haddysg mewn ysgol uwchradd.

## Nodiadau ar ddehongli

Er bod yr arolwg wedi'i hyrwyddo a'i ddosbarthu'n eang, ni ellir ystyried bod sampl yr arolwg yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gyffredinol.

Roedd sylwadau ysgrifenedig a ddarparwyd mewn ymateb i'r cwestiynau arolwg testun agored yn aml yn cyflwyno safbwyntiau mwy beirniadol neu negyddol nag a fynegwyd mewn ymatebion i gwestiynau caeedig. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai dim ond cyfran o'r ymatebwyr a ddewisodd ddarparu sylwadau ysgrifenedig. Roedd ymatebwyr a roddodd ymatebion mwy negyddol i gwestiynau caeedig yr arolwg—er enghraifft, trwy ddewis 'anghytuno’n gryf' neu 'anghytuno'—hefyd yn fwy tebygol o ddarparu sylwadau ysgrifenedig na'r rhai a oedd wedi ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau caeedig yr arolwg.

Cododd ymatebwyr a ddarparodd ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau testun agored yr arolwg ystod eang o themâu. Ychydig iawn o gwestiynau a gafwyd lle codwyd un thema gan y mwyafrif o'r ymatebwyr. Dylid nodi, felly, fod pob un o'r themâu a grynhowyd mewn adrannau cyfatebol wedi'u codi gan leiafrif o ymatebwyr, neu yn wir gan leiafrif cymharol fach, o ymatebwyr oni bai y nodir fel arall.

# Prif ganfyddiadau

Cyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol isod. Sylwer fod y term "ymatebion" yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na "ymatebwyr" gan fod rhieni wedi medru ateb am blentyn ychwanegol.

## Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)

Dywedodd dros hanner (58%) yr ymatebion fod gan eu plentyn Gynllun Datblygu Unigol (CDU), dywedodd 32% arall nad oedd ganddynt CDU ac nid oedd y 10% arall yn siŵr. Ymhlith y rhai yr oedd gan eu plant CDU, dywedodd 77% fod yr ysgol yn gyfrifol am baratoi a chynnal CDU eu plentyn. Roedd rhieni fwyaf tebygol o ddweud nad oedd gan eu plentyn CDU oherwydd bod lleoliad addysg eu plentyn (neu’r awdurdod lleol) wedi penderfynu nad oedd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) arnynt.

### Dim CDU - sylwadau testun agored

Roedd gan ymatebwyr i'r cwestiwn caeedig ar y rhesymau pam nad oedd gan eu plentyn CDU yr opsiwn i ddarparu gwybodaeth ychwanegol os oeddent yn dymuno gwneud, a derbyniwyd 180 o ymatebion. Roedd y themâu a godwyd amlaf yn cynnwys:

- nid oedd angen CDU – tynnodd nifer o rieni sylw at y ffaith eu bod wedi gofyn am CDU ond penderfynodd ysgol eu plentyn nad oedd angen cynllun. Ymhlith y rhesymau a nodwyd am hyn, nododd rhieni bod yr ysgol wedi penderfynu nad oedd gan y plentyn ADY, neu fod yr ysgol wedi derbyn bod gan y plentyn ADY ond wedi penderfynu y gellid diwallu eu hanghenion trwy 'ddarpariaeth gyffredinol' yn hytrach na DDdY
- cefnogaeth heb CDU – mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, myfyriodd rhai rhieni hefyd ar y gefnogaeth a ddarperir gan ysgolion i'w plant, gan fynegi safbwyntiau cymysg. Mewn rhai achosion, nododd rhieni fod disgwyl i anghenion addysgol eu plentyn gael eu diwallu o dan 'ddarpariaeth gyffredinol'. Fodd bynnag, roedd y rhieni hyn yn teimlo nad oedd hyn yn ddigonol a'i fod yn effeithio'n negyddol ar gynnydd a chanlyniadau addysgol eu plentyn. Soniodd rhieni eraill eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth yr oedd eu plentyn yn derbyn trwy ddarpariaeth gyffredinol, gan nodi eu bod yn teimlo bod y gefnogaeth yn ddigonol ac yn fuddiol i'w plentyn
- CDU yn gysylltiedig â diagnosis neu asesiad – roedd yn farn gyffredin ymhlith rhieni a roddodd sylwadau ychwanegol bod angen cael diagnosis o gyflwr iechyd er mwyn i'w plentyn gael CDU

## Barn ar y gefnogaeth a ddarperir

Roedd barn gymysg ymhlith rhieni ynghylch a oedd y cymorth a ddarparwyd gan ysgol neu ddarparwr addysg eu plentyn yn diwallu eu hanghenion, gyda 41% yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" ei fod yn diwallu eu hanghenion a 44% yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â hyn. Roedd rhieni a ddywedodd bod gan eu plentyn CDU yn fwy tebygol na rhieni plant heb CDU i gytuno bod y cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion eu plentyn.

### Barn ar y gefnogaeth a ddarperir – sylwadau testun agored

Gwahoddwyd rhieni i roi sylwadau ychwanegol ar y gefnogaeth a ddarparwyd a derbyniwyd 705 o ymatebion. Roedd y rhai a oedd wedi anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod y cymorth a ddarperir yn bodloni anghenion eu plentyn yn fwy tebygol o fod wedi darparu ymateb ysgrifenedig na'r rheiny a oedd wedi cytuno neu gytuno'n gryf â'r datganiad hwn. Ymhlith y rhai a ddarparodd sylwadau, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- diffyg darpariaeth, capasiti (er enghraifft, gweithlu) a/neu adnoddau (er enghraifft, cyllid) i gefnogi diwallu anghenion eu plentyn
- darpariaeth a chymorth anaddas neu annigonol – dywedodd nifer o rieni nad oedd y cymorth neu'r ddarpariaeth yr oedd eu plentyn yn ei dderbyn yn addas neu roedd yn annigonol i ddiwallu anghenion eu plentyn
- pryderon yn ymwneud ag ysgol eu plentyn a/neu eu hawdurdod lleol, er enghraifft diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am ADY

- barn gadarnhaol ar CADYau a staff eraill yr ysgol – adroddodd rhai rhieni brofiadau cadarnhaol trwy eu cyswllt â CADY a staff eraill yn ysgol eu plentyn
- pryderon am y broses o adnabod ADY eu plentyn

## Gwybodaeth a chanllawiau

Roedd rhieni fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi cael mynediad at wybodaeth a chanllawiau mewn perthynas ag ADY a'r system ADY gan ysgol/darparwr addysg eu plentyn (65%) ac yna eu hawdurdod lleol (42%). Dywedodd traean (32%) o'r ymatebion eu bod wedi cael mynediad at wybodaeth gan sefydliad arall, gyda rhieni yn sôn am wasanaethau cymorth ac eiriolaeth, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol, gwybodaeth ar-lein a chymorth rhieni-gymheiriaid.

Roedd safbwyntiau cymysg ar eglurder y wybodaeth yr oedd rhieni wedi'i chael. Roedd tua thraean o'r ymatebion yn cytuno, yn anghytuno a ddim yn cytuno nac yn anghytuno bod y wybodaeth yn glir ac yn cefnogi eu dealltwriaeth o'r system ADY.

### Eglurder gwybodaeth – sylwadau testun agored

Gwahoddwyd y rhai a oedd yn anghytuno bod y wybodaeth a gyrchwyd yn glir i gynnig sylwadau pellach. Ymhlith y 433 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- diffyg gwybodaeth neu gymorth – cyfeiriodd nifer o rieni at ddiffyg gwybodaeth neu gymorth a ddarparwyd, a methu â chael digon o wybodaeth i'w galluogi i ddeall y system ADY
- gwybodaeth aneglur, gwrthgyferbyniol neu gamarweiniol – dywedodd rhai rhieni nad oedd y wybodaeth yr oeddent wedi'i chyrchu neu ei derbyn yn ddigon eglur, nad oedd yn hawdd ei defnyddio, ei bod yn rhy gymhleth, nad oedd yn ddigon penodol i fod yn ddefnyddiol, ei fod yn wrthgyferbyniol neu'n gamarweiniol
- cyfathrebu gwael – roedd rhai rhieni yn teimlo nad oedd ansawdd y cyfathrebu yn ddigon da gan ddarparwyr addysg, awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill (er enghraifft, ymarferwyr iechyd) mewn perthynas â phrosesau, amserlenni a chymorth
- cymhlethdod y system ADY – roedd rhai rhieni o'r farn bod y system ADY yn rhy gymhleth ac yn anodd ei deall

## Gwybodaeth a chanllawiau - gofynion am gymorth pellach

Roedd dros hanner yr ymatebion (69%) naill ai'n "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod angen rhagor o wybodaeth, cyngor a chanllawiau arnynt mewn perthynas â'r system ADY. Roedd yr ymatebion hyn fwyaf tebygol o ddweud bod angen rhagor o wybodaeth/cyngor/ canllawiau arnynt mewn perthynas â sut y bydd plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu cefnogi o dan y system ADY.

### Gwybodaeth a chanllawiau – yr angen am gymorth pellach (sylwadau testun agored)

Rhoddwyd cyfle i rieni hefyd nodi pa wybodaeth/cyngor/canllawiau pellach oedd eu hangen arnynt trwy gwblhau blwch sylwadau testun agored. Y themâu a godwyd amlaf oedd:

- gwybodaeth am brosesau – roedd nifer o rieni yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth, cyngor ac arweiniad arnynt ynglŷn ag agweddau cyffredinol a phenodol o'r system ADY. Roedd rhieni hyn yn tueddu i adrodd eu bod yn aneglur am elfennau craidd y system, megis amserlenni cyfreithiol a phrosesau datrys anghydfodau, yn ogystal ag agweddau eraill, yn cynnwys sut mae CDUau yn cyd-gysylltu â chynlluniau addysgol neu iechyd eraill sydd ar waith ar gyfer plentyn
- gwybodaeth am adolygiadau CDU – adroddodd rhai rhieni nad oeddent yn glir ynghylch sut roedd CDUau yn cael eu hadolygu yn barhaus i asesu a oedd DDdY yn briodol ac yn effeithiol
- hygyrchedd gwybodaeth – nododd rhai rhieni eu bod yn gweld agweddau o'r system yn gymhleth i'w deall, gan gynnwys yr iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol a hefyd o fewn dogfennaeth swyddogol, gan gynnwys mewn CDUau
- gwasanaethau cymorth – cyfeiriodd rhai rhieni at yr angen am well gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael a sut i gael mynediad at wasanaethau cymorth

## Adnabod ADY (rhieni plant sydd â CDU yn unig)

Roedd dros hanner yr ymatebion (56%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" y cefnogwyd hwy i gymryd rhan mewn prosesau i adnabod ADY eu plentyn, a dywedodd dros hanner y gwrandawyd arnynt yn ystod y broses. Roedd rhieni yn llai cadarnhaol ar ba mor amserol oedd y broses o adnabod ADY eu plentyn; roedd tua hanner yr ymatebion (49%) yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" bod ADY eu plentyn wedi'i adnabod mewn modd amserol.

### Adnabod ADY (rhieni plant sydd â CDU yn unig) – sylwadau testun agored

Cynigiodd rhai rhieni wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'u cyfranogiad ym mhrosesau adnabod ADY. Roedd rhieni a oedd wedi anghytuno â'r datganiadau yn y cwestiynau caeedig yn llawer fwy tebygol o fod wedi darparu sylwadau ysgrifenedig na'r rhai a oedd wedi cytuno. Adlewyrchir hyn yn y themâu a nodir isod. Ymhlith y 313 o ymatebion testun agored a dderbyniwyd, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- rhieni yn teimlo na wrandawyd arnynt – dywedodd nifer o rieni nad oeddent yn teimlo y gwrandawyd ar eu safbwyntiau yn ystod y broses o adnabod ADY eu plentyn

- oedi wrth asesu anghenion a gwneud penderfyniadau – cyfeiriodd rhai rhieni at oedi yn y broses o asesu anghenion eu plentyn ac wrth benderfynu a oedd gan eu plentyn ADY ai peidio
- pryderon cyffredinol am ddulliau adnabod ADY ysgolion ac awdurdodau lleol
- cefnogaeth a chyfathrebu da – cyfeiriodd rhai rhieni at enghreifftiau o'u plentyn yn cael eu cefnogi'n dda gan eu hysgol, darparwr blynyddoedd cynnar a/neu'r awdurdod lleol
- anghysondeb – cyfeiriodd rhai rhieni at anghysondebau mewn dulliau o adnabod, cynllunio a darpariaeth mewn gwahanol ysgolion yr oedd eu plentyn wedi mynychu

Cynigiodd rhai rhieni sylwadau hefyd mewn perthynas â chyfranogiad eu plentyn fel rhan o brosesau adnabod a ph'un ai oedd ADY wedi'i adnabod mewn ffordd amserol. Roedd rhieni a oedd wedi anghytuno â'r datganiadau yn y cwestiynau caeedig yn llawer fwy tebygol o fod wedi darparu sylwadau ysgrifenedig na'r rhai a oedd wedi cytuno. Ymhlith y 305 o ymatebion a dderbyniwyd, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- oedi wrth adnabod ADY eu plentyn – cyfeiriodd nifer o rieni at oedi wrth adnabod ADY eu plentyn, gan fynegi rhwystredigaeth am yr amseroedd aros dan sylw
- effaith oedi ar ddatblygiad plant a lles teuluoedd – pwysleisiodd rhai rhieni effaith negyddol yr oedi wrth adnabod ADY ar ddatblygiad a chynnydd plant yn yr ysgol. Adroddodd rhieni eraill fod oedi wrth adnabod, neu fethiant i adnabod ADY yn gyfan gwbl, yn cael effeithiau niweidiol ar iechyd meddwl a lles plant, gan gyfrannu at broblemau emosiynol. Mewn rhai achosion, disgrifiodd rhieni effaith oedi ar les y teulu yn fwy cyffredinol
- trafferthion a brofwyd gan rieni yn ystod y broses o adnabod ADY – gwnaeth rhai rhieni sylwadau ar y 'frwydr' yr oeddent wedi'i phrofi er mwyn sicrhau bod ADY eu plentyn yn cael eu hadnabod
- cymorth allanol a gafwyd gan rieni – adroddodd rhai ymatebion eu bod wedi cael mynediad at gymorth allanol i'w cefnogi yn ystod y broses o geisio adnabod ADY eu plentyn
- barn gadarnhaol ar y broses adnabod – mewn rhai achosion, cynigiodd rhieni sylwadau cadarnhaol ar y broses o adnabod ADY eu plentyn. Roedd yr ymatebion hyn yn aml yn cyfeirio at y gefnogaeth werthfawr a ddarparwyd gan CADYau profiadol, ymarferwyr gofal plant a/neu swyddogion awdurdodau lleol
- rhwystredigaeth o deimlo na wrandawyd ar farn eu plentyn – mewn rhai achosion, mynegodd rhieni rwystredigaeth nad oedd partneriaid yn gwrando ar farn eu plentyn yn ystod y broses o adnabod eu ADY. Dywedodd y rhieni hyn fod eu plant yn cael eu hystyried fel rhai oedd â 'phroblemau ymddygiad' neu fel rhai 'trafferthus' ac nad oedd eu barn yn cael eu cymryd o ddifrif
- cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau – dywedodd rhai rhieni nad oedd eu plentyn yn cael digon o gyfle i gymryd rhan mewn prosesau neu drafodaethau i adnabod eu ADY

## Cyfarfod cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn (rhieni plant sydd â CDU yn unig)

Gofynnwyd i rieni plant â CDU i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau yn ymwneud â'r cyfarfodydd a gynhaliwyd i baratoi CDU eu plentyn. Roedd dros hanner yr ymatebion naill ai'n "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf":

- yr oedd hi’n amlwg iddynt beth fyddai'r camau nesaf ar ôl y cyfarfod cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn
- y cafodd pwrpas y cyfarfod cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ei esbonio'n dda iddynt ymlaen llaw
- eu bod yn fodlon â'r amser a gymerodd i gyfarfod cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn eu plentyn gael ei drefnu

### Cyfarfodydd cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn (PCP) (rhieni plant sydd â CDU yn unig) – sylwadau testun agored

Cynigiodd rhai rhieni wybodaeth ychwanegol am eu profiadau o'r cyfarfod cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd y rhai a gynigiodd ymateb yn fwy tebygol o fod wedi anghytuno eu bod yn fodlon â'r amser a gymerodd i drefnu gyfarfod cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn eu plentyn a bod y camau nesaf ar ôl y cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn glir. Ymhlith y 192 o ymatebion a dderbyniwyd, roedd y themâu a godwyd amlaf yn ymwneud â:

- heriau canfyddedig gyda'r broses gynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn – myfyriodd nifer o rieni nad oedd y cyfarfod cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn bob amser yn cael ei gynnal mewn ffyrdd sy'n gyson â dull ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Adroddodd y rhieni hyn fod y cyfarfod cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi bod yn anodd oherwydd nad oeddent yn teimlo y gwrandawyd arnynt yn y cyfarfod a gallai targedau a nodwyd yn ystod cyfarfodydd fod yn aneglur, gan arwain at ddiffyg cefnogaeth ymarferol ac effeithiol i'w plentyn
- cyfathrebu â rhieni – mynegodd rhai rhieni anfodlonrwydd gyda'r lefel o gyfathrebu a gawsant gan ddarparwyr addysg neu'r awdurdod lleol ynglŷn â'r broses gynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn
- oedi yn y broses gynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn – dywedodd rhai rhieni eu bod wedi profi oedi yn y broses gynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn a oedd weithiau'n hir iawn ac y tu hwnt i'r amserlenni a ganiateir

## Paratoi CDU (rhieni plant oedd â CDU)

O ran cyfranogiad rhieni yn y broses o baratoi'r CDU, nododd 70% o'r ymatebion eu bod yn "cytuno" neu’n "cytuno'n gryf" y gwrandawyd ar eu safbwyntiau yn ystod y broses o baratoi'r CDU.

Mewn perthynas â chyfranogiad eu plentyn, nododd 44% eu bod yn "cytuno" neu’n "cytuno'n gryf" y gwrandawyd ar safbwyntiau eu plentyn yn ystod y broses o baratoi'r CDU, tra bod 18% o'r ymatebion yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" (dewisodd 18% "ddim yn berthnasol").

Roedd dros hanner yr ymatebion (55%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn fodlon â'r amser a gymerodd i CDU eu plentyn gael ei baratoi ac roedd 53% yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn fodlon bod holl ADY eu plentyn wedi'u hadnabod a'u disgrifio'n gywir yn y CDU.

### Paratoi CDU (rhieni plant sydd â CDU yn unig) – sylwadau testun agored

Gwahoddwyd rhieni hefyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am broses CDU eu plentyn. Derbyniwyd cyfran uwch o sylwadau ysgrifenedig gan rieni a oedd wedi anghytuno â'r datganiadau cwestiynau caeedig. Roedd y themâu a godwyd amlaf ar draws y 222 o ymatebion a dderbyniwyd fel a ganlyn:

- ansawdd CDU a chefnogaeth DDdY – dywedodd nifer o rieni eu bod yn pryderu am ansawdd CDU eu plentyn. Adroddodd y rhieni hyn nad oedd gan CDU eu plentyn ddigon o fanylion ac nad oedd amcanion DDdY bob amser wedi'u nodi'n glir neu eu bod yn amhriodol
- oedi yn ymwneud â CDU - nododd rhieni eraill fod oedi wedi bod yn y broses ac adroddwyd ei bod yn cymryd amser hir i dderbyn CDU
- prosesau CDU - dywedodd rhai rhieni eu bod yn anfodlon â phrosesau a chynllunio CDU. Barn gyffredin a fynegwyd gan rieni oedd bod cyfarfodydd yn rhy frysiog, heb ddigon o amser i drafod anghenion yn ddigonol, ac adnabod a chytuno ar gymorth priodol

## Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDdY)

Roedd rhieni fwyaf tebygol o ddweud mai darparwr ysgol/addysg oedd yn darparu'r DDdY fel yr amlinellir yn Adran 2 o CDU eu plentyn; dywedodd 79% o rieni hyn, gyda 18% yn dweud bod DDdY yn cael ei ddarparu gan wasanaethau allgymorth awdurdodau lleol.

Roedd rhieni plant oedd yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref fwyaf tebygol o ddweud mai rhiant / gofalwr oedd yn darparu DDdY eu plentyn.

Roedd dros hanner (59%) o rieni yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod yn deall y DDdY a amlinellwyd yn CDU eu plentyn.

Roedd llai na hanner y rhieni "cytuno" neu "cytuno'n gryf":

- eu bod nhw'n fodlon â'r amser a gymerodd i roi DDdY eu plentyn ar waith (43%)
- fod y DDdY a amlinellwyd yn y CDU yn ddigonol i ddiwallu anghenion eu plentyn (39%)

## Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (rhieni plant sydd â CDU yn unig) – sylwadau testun agored

Cynigiodd 270 o rieni sylwadau i ymhelaethu ar eu rhesymau dros anghytuno bod y DDdY a amlinellwyd yn CDU eu plentyn yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion. Y themâu a godwyd amlaf oedd:

- bod DDdY wedi mynd i'r afael â rhai ond nid pob un o anghenion eu plentyn, er enghraifft nad oedd y DDdY wedi ei deilwra'n ddigonol i anghenion unigol
- bod ansawdd y DDdY a ddarparwyd yn wael neu fod y DDdY a ddarparwyd yn anghyson â'r CDU
- bod lefel y gefnogaeth/DDdY wedi'i gyfyngu gan yr adnoddau oedd ar gael; mewn nifer lai o achosion, awgrymodd rhieni mai un o'r prif resymau nad oedd DDdY yn ddigonol oedd diffyg staff neu adnoddau

## DDdY – anghenion iaith Gymraeg (rhieni plant sydd â CDU yn unig)

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo y dylid darparu DDdY eu plentyn yn y Gymraeg, dywedodd lleiafrif bach (6%) y dylid. Ymhlith y rhain, dywedodd dros hanner (56%, 33 allan o 59) fod eu plentyn yn derbyn DDdY yn gyfan gwbl yn y Gymraeg, dywedodd lleiafrif (25%, 15 allan o 59) fod eu plentyn yn derbyn DDdY yn rhannol yn Gymraeg a'r 19% arall (11 allan o 59) yn dweud nad oedd eu plentyn yn derbyn DDdY yn Gymraeg.

## Pontio rhwng lleoliadau addysg

Dywedodd tua chwarter yr ymatebion (27%) fod eu plentyn wedi symud rhwng lleoliadau addysg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ymhlith y rhai a oedd wedi symud rhwng lleoliadau, roedd llai na hanner yr ymatebion (44%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" iddynt gael gwybodaeth glir am sut y byddai ADY eu plentyn yn cael ei diwallu wrth symud rhwng lleoliadau. Roedd 42% arall o'r ymatebion yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn.

Roedd llai na hanner yr ymatebion (44%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" y cafodd ADY eu plentyn eu diwallu wrth symud rhwng lleoliadau addysg. Roedd 42% arall yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn.

## Cynnal ADY ar draws sawl lleoliad

Gofynnwyd i rieni a ddywedodd bod eu plentyn yn derbyn eu haddysg mewn mwy nag un lleoliad ynglŷn a’r broses o gynnal ADY ar draws sawl lleoliad. Roedd llai na hanner yr ymatebion (22 allan o 53, 41%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ADY eu plentyn, tra bod 18 allan o 53 (34%) yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn.

Roedd llai na hanner yr ymatebion (20 allan o 53, 37%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir gan bob darparwr ynghylch sut roedd ADY eu plentyn yn cael eu cefnogi; roedd 8 allan o 53 o ymatebion (34%) yn “anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn.

## Ymwybyddiaeth o hawliau i herio penderfyniadau

Dywedodd tua hanner (54%) yr ymatebion nad oeddent yn ymwybodol o'u hawliau i herio penderfyniadau o dan y system ADY, o'i gymharu â 46% a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o’u hawliau.

Roedd y rhai a oedd yn ymwybodol o'u hawliau fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi cael eu hysbysu drwy ysgol/lleoliad addysg eu plentyn/CADY (38%) neu drwy ddulliau eraill (38%), megis gwasanaethau a sefydliadau pwrpasol, gweithwyr proffesiynol ac adnoddau swyddogol (er enghraifft, y Cod ADY neu wefan Tribiwnlys Addysg Cymru).

## Herio penderfyniadau

Dywedodd llai na hanner (31%) yr ymatebion eu bod wedi anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol, yn ymwneud ag ADY. Dywedodd y 69% arall nad oeddent wedi anghytuno â phenderfyniad.

### Herio penderfyniadau – sylwadau testun agored

Cynigiodd rhai rhieni a oedd wedi anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol fanylion pellach mewn perthynas â'r anghytundeb. Ymhlith y 396 o ymatebion a dderbyniwyd, roedd y themâu a godwyd amlaf yn cynnwys:

- anghytundebau mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch derbyn CDU neu gynnal asesiadau - dywedodd nifer o rieni eu bod wedi anghytuno â phenderfyniad i beidio â darparu CDU neu beidio â chyfeirio eu plentyn am asesiad gan yr awdurdod lleol
- anghytundebau ynghylch darpariaeth - dywedodd rhai rhieni eu bod wedi anghytuno â phenderfyniadau mewn perthynas â darparu cymorth i'w plentyn
- anghytundebau ynghylch lleoliad addysg - dywedodd rhai rhieni eu bod wedi anghytuno â phenderfyniadau oedd yn ymwneud â chynnig lle i'w plentyn mewn lleoliad addysg
- y broses o anghytuno â phenderfyniad - mynegodd rhai rhieni farn negyddol ar eu profiadau o'r broses ei hun o anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol. Esboniodd y rhieni hyn eu bod wedi profi oedi wrth dderbyn ymatebion gan leoliadau addysg ac awdurdodau lleol ac roeddent yn teimlo'n anfodlon ac yn rhwystredig gyda'r broses yn gyffredinol

## Datrys anghytundeb

Ymhlith rhieni a ddywedodd eu bod wedi anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan sefydliad addysg neu awdurdod lleol mewn perthynas ag ADY, dywedodd 68% nad oedd yr anghytundeb wedi'i ddatrys.

## Bodlonrwydd â'r system ADY, gan gynnwys DDdY (rhieni dysgwyr sydd â CDU)

Gofynnom i rieni plant oedd â CDU i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â'u bodlonrwydd ag agweddau ar y system ADY, gan gynnwys DDdY. Roedd dros hanner (59%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod lleoliad ysgol/addysg eu plentyn yn hybu eu cynhwysiant yng nghymuned yr ysgol. Roedd tua hanner hefyd yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf":

- bod y rhai sy'n cefnogi eu plentyn yn gweithio'n dda gyda'i gilydd (52%)
- bod y DDdY yr oedd eu plentyn yn ei dderbyn yn eu helpu i wneud cynnydd yn eu haddysg (48%)

Roedd llai na hanner (45%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod ADY eu plentyn yn cael eu diwallu yn eu haddysg.

Roedd lleiafrif (29%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y system ADY yn helpu i wella profiadau i rieni a gofalwyr, tra bod 44% yn "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r datganiad hwn.

### Bodlonrwydd â'r system ADY (rhieni dysgwyr sydd â CDU) – sylwadau testun agored

Cynigiodd rhai rhieni sylwadau pellach mewn perthynas â'u bodlonrwydd â'r system ADY. Roedd y rhai a gynigiodd ymateb i'r cwestiwn testun agored hwn yn fwy tebygol o feddwl bod lleoliad addysg eu plentyn yn hybu eu cynhwysiant yng nghymuned yr ysgol ac yn llai tebygol o feddwl bod y system ADY yn helpu i wella profiadau rhieni/gofalwyr, neu fod y rhai a gefnogodd eu plentyn yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Ymhlith y 196 o ymatebion a dderbyniwyd, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- cefnogaeth i blant a'u teuluoedd – mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau gan rieni am gymorth gan ysgolion, gan gynnwys y farn eu bod wedi derbyn cefnogaeth wael, annigonol neu ddim cefnogaeth gan ysgol eu plentyn, tra bod eraill, er yn llai niferus, wedi dweud eu bod wedi derbyn digon o gefnogaeth gan yr ysgol
- cyllid a chapasiti - gwnaeth rhai rhieni sylwadau am ddiffyg cyllid ac adnoddau digonol i weithredu'r system ADY a sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn derbyn y cymorth angenrheidiol
- pa mor dda mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd - roedd rhieni eraill yn teimlo nad oedd darparwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Cyfeiriwyd at gyfathrebu gwael a rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr, gan nodi bod angen gwella hyn

- y 'frwydr' i rieni - cyfeiriodd nifer o rieni at deimlad eu bod yn wynebu 'brwydr' er mwyn sicrhau bod anghenion eu plentyn yn cael eu cydnabod a bod eu plentyn yn derbyn y gefnogaeth yr oeddent yn teimlo yr oedd ei hangen arnynt
- canfyddiad bod y system ADY yn gymhleth ac yn ddryslyd a/neu'r Ddeddf yn amwys ac yn agored i'w dehongli
- arbenigedd a sgiliau staff - roedd rhieni eraill yn teimlo nad oedd bob amser gan ddarparwyr addysg staff gyda'r arbenigedd a'r sgiliau perthnasol i gefnogi eu plentyn. Roedd y rhieni hyn yn credu bod angen rhagor o hyfforddiant i sicrhau bod staff wedi'u harfogi’n well a'u huwch-sgilio i gefnogi plant a'u teuluoedd

## Bodlonrwydd â'r system ADY (rhieni dysgwyr heb CDU)

Fe wnaethom hefyd ofyn i rieni plant heb CDU i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â’u bodlonrwydd â'r system ADY.

Roedd llai na hanner (45%) yr ymatebion yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod lleoliad ysgol/addysg eu plentyn yn hybu eu cynhwysiant yng nghymuned yr ysgol, tra bod lleiafrif (26%) "ddim yn cytuno nac yn anghytuno" â hyn.

Roedd lleiafrif bach (14%) yn "cytuno" neu'n "cytuno'n gryf" bod y system ADY yn helpu i wella profiadau i rieni a gofalwyr. Roedd llai na hanner (43%) yn “anghytuno'n gryf" neu'n "anghytuno", a 39% arall "ddim yn cytuno nac yn anghytuno" â hyn.

Ymhlith rhieni plant heb CDUau a ddarparodd sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â'u bodlonrwydd â'r system ADY, roedd y themâu a nodwyd amlaf yn debyg i'r rhai a nodwyd gan rieni yr oedd gan eu plentyn CDU.

## Plant a addysgir yn ddewisol yn y cartref

Nododd dros hanner yr ymatebion gan rieni plant oedd yn cael eu haddysgu yn ddewisol yn y cartref (19 allan o 33, 58%) fod eu plentyn wedi cael eu dadgofrestru o'r ysgol yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dywedodd y mwyafrif helaeth (28 allan o 33, 85%) o ymatebion gan rieni plant oedd yn cael eu haddysgu yn ddewisol yn y cartref fod eu penderfyniad i ddechrau addysgu eu plentyn gartref wedi'i ddylanwadu gan bryder na fyddai'r addysg a oedd yr awdurdod lleol ei gynnig yn diwallu anghenion dysgu eu plentyn. Dywedodd hanner y rhieni hyn (14 allan o 28, 50%) y byddai'n well ganddynt i'w plentyn ddychwelyd i'r ysgol pe bai cymorth a darpariaeth briodol ar waith. Dywedodd lleiafrif (5 allan o 28, 18%) na fyddai'n well ganddynt i'w plentyn ddychwelyd i'r ysgol a dywedodd y 9 arall (allan o 28, 32%) nad oeddent yn siŵr.

## Barn gyffredinol ar y system ADY – cwestiynau testun agored

### Beth sy'n gweithio'n dda?

Gofynnwyd i rieni wneud sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn gweithio'n dda yn y system ADY, a derbyniwyd 885 o ymatebion. Atebodd cyfran o rieni y cwestiwn hwn drwy adrodd nad oedd unrhyw beth, neu ychydig iawn, yn gweithio'n dda yn y system ADY, a mynegi pryderon am faterion gan gynnwys diffyg capasiti

(er enghraifft, staff), adnoddau (er enghraifft, cyllid) a darpariaeth a chymorth addas i'w plentyn.

Mae gweddill yr adran hon yn amlinellu'r themâu eraill a nodwyd yn aml mewn perthynas â'r hyn y teimlai rhieni oedd yn gweithio'n dda:

- CDUau, prosesau cynllunio ac adolygu – adroddodd rhai rhieni fod prosesau sy'n ymwneud â CDUau, yn enwedig cyfarfodydd cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chynllunio yn gweithio'n dda. Roedd y rhieni hyn yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod anghenion eu plentyn mewn cyfarfod cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn chyfarfodydd adolygu a nododd y rhieni hyn fod targedau mewn CDUau yn glir ac yn ddefnyddiol iddynt
- Ymgysylltu â CADYau a staff eraill yr ysgol – roedd gan rai rhieni farn gadarnhaol ar eu hymgysylltiad â’r CADY a staff eraill yn ysgol eu plentyn
- Cymorth a ddarparwyd i'w plentyn – mynegodd rhai rhieni farn gadarnhaol am y gefnogaeth yr oedd eu plentyn yn ei derbyn
- Cyfathrebu a gwybodaeth – gwnaeth rhai rhieni sylwadau am gyfathrebu da a gwybodaeth ddefnyddiol yr oeddent wedi'u derbyn gan ysgol eu plentyn a/neu eu hawdurdod lleol
- Adnabod ADY – adroddodd rhai rhieni fod prosesau adnabod wedi gwella, gan sôn yn benodol am adnabod anghenion yn gynnar ymysg plant cyn oed ysgol gorfodol

## Beth sy'n gweithio'n llai da?

Gofynnwyd i rieni wneud sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn gweithio'n llai da yn y system ADY ac awgrymu unrhyw welliannau. Ymhlith y 1010 a ymatebodd, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- capasiti, adnoddau a darpariaeth – nododd rhai rhieni bod diffyg capasiti (er enghraifft, staff), adnoddau (er enghraifft, cyllid) a darpariaeth addas (er enghraifft, grwpiau llai, darpariaeth amgen, deunyddiau dosbarth penodol) gan ddarparwyr addysg, awdurdodau lleol a/neu gyrff iechyd
- cyfathrebu â rhieni – gwnaeth rhai rhieni sylwadau ar yr angen i ddarparwyr addysg, awdurdodau lleol a chyrff iechyd wella eu cyfathrebu â rhieni
- sgiliau ymarferwyr a dysgu proffesiynol – nododd rhai rhieni bod diffyg arbenigedd mewn perthynas ag ADY ymhlith y gweithlu addysg, a/neu y gellid gwella'r system ADY drwy ddarparu mwy o hyfforddiant ar ADY i ymarferwyr
- diwallu anghenion dysgwyr – dywedodd rhai rhieni nad oedd anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu yn eu haddysg
- prosesau amserol – roedd rhai rhieni o'r farn bod prosesau yn y system ADY yn cymryd rhy hir, yn enwedig prosesau adnabod a phenderfyniadau i bennu ADY
- gwrando ar rieni – mynegodd rhai rhieni rwystredigaethau nad oedd darparwyr addysg, awdurdodau lleol a/neu gyrff iechyd yn gwrando ar eu safbwyntiau yn ddigonol

- heriau wrth weithredu'r system ADY – roedd gan rai rhieni ganfyddiad nad oedd darparwyr addysg yn gallu gweithredu agweddau ar y system ADY yn effeithiol. Er enghraifft, mynegodd rhai bryderon am ansawdd CDUau ac anghysondebau mewn dulliau o ysgrifennu CDUau
- diffiniadau o ADY ac DDdY – gwnaeth rhai rhieni sylwadau ar faterion a heriau sy'n ymwneud â diffiniadau o ADY ac DDdY

Awduron yr adroddiad: Hefin Thomas, Brett Duggan, Sioned Lewis, Jennifer Lane, Sam McAlister-Wilson, Anest Williams

Adroddiad Ymchwil Llawn: Thomas, H; Duggan, B; Lewis, S; Lane, J; McAlister-Wilson, S; Williams, A (2025). Gwerthusiad o'r system anghenion dysgu ychwanegol: arolwg o rieni a gofalwyr. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 97/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-arolwg-o-rieni-gofalwyr

Barn yr ymchwilwyr yw barn yr ymchwilwyr ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-515-2